Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee
Ymchwiliad i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal / Inquiry into care experienced children and young people
PAC(5) CECYP - 01
Ymateb gan Tros Gynnal Plant a NYAS (Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol) Cymru / Evidence from Tros Gynnal Children and NYAS (National Youth Advocacy Service) Wales

Tros Gynnal Plant a NYAS Cymru yw'r Darparwyr Annibynnol ar gyfer Eiriolaeth Statudol i Blant sy'n derbyn Gofal yng Nghymru, a Voices from Care yw'r prif wasanaeth eiriolaeth annibynnol a arweinir gan gymheiriaid yng Nghymru.

1. **Rydym ni o'r farn y byddai cost gyffredinol a gwerth am arian yr amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus sy'n ceisio gwella canlyniadau ar gyfer Pobl Ifanc â Phrofiad o Ofal:**

a) Yn gwella drwy gynnwys eiriolwyr plant sy'n derbyn gofal y tu hwnt i hawliad y cynnig gweithredol statudol, er enghraifft, cyfweliadau wrth ddychwelyd gan eiriolwyr annibynnol i blant sy'n derbyn gofal pan fo plant yn diflannu o ofal neu'n cael eu harestio gan yr heddlu ac yn atebol i'r system farnwriaeth; byddai hyn yn sicrhau bod eu hawliau a'u hawliadau yn cael eu cyflawni.

b) Yn gwella drwy gynnwys Ymwelwyr Annibynnol yn unol â'r canllawiau deddfwriaethol diwygiedig. Nid yw'r gwasanaeth Ymwelwyr Annibynnol yn cael ei gynnig yn dryloyw nac yn gyfartal ledled Cymru ar hyn o bryd.

c) Mae angen cysylltu'r adnodau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal â gwariant cyhoeddus arall, yn arbennig â gwariant hamdden, y celfyddydau, digwyddiadau diwylliannol, chwaraeon, trafnidiaeth ac ati, a gaiff eu noddi neu eu darparu gan yr awdurdod lleol. Rydym ni o'r farn y dylai plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal gael defnyddio'r gwasanaethau hyn am ddim ledled Cymru. Gellid gweithio'n fwy ar y cyd yn y sector cyhoeddus er mwyn cyflawni hyn.

2. **Isod, nodir ein barn ar ba un a yw canlyniadau dymunol Llywodraeth Cymru ar gyfer Plant a Phobl Ifanc â Phrofiad o Ofal yn cael eu cyflawni gyda'r lefelau presennol o wariant cyhoeddus;**

a) Er ein bod yn croesawu'r ymrwymiad a'r gwelliant i gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, ac adroddiad Codi Uchelgais Comisiynydd Plant Cymru yn 2016, ynghyd â'r fenter "Pan Fydda i'n Barod", mae angen i ni wybod bod y canlyniadau hyn yn cael eu monitro a'u hasesu yn yr hirdymor.

b) Ar hyn o bryd, nid oes gennym ni fframwaith canlyniadau i fesur effaith yr ymyrraeth eirioli statudol.

c) Rydym yn pryderu am y modd y mae dyraniad y grant datblygu disgyblion yn cael ei weithredu a'i fonitro, ac rydym yn ymwybodol nad yw'r grant gadael gofal yn gyfartal ym mhob rhan o Gymru. O ganlyniad i hyn, nid yw hawliau llawn pobl ifanc yn cael eu cyflawni yn y cyfnod pontio i fod yn oedolyn.

Ch) Rhieni Corfforaethol ddylai fod yn gyfrifol am atebolrwydd am wariant yr awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, er mwyn cymharu effaith y fframwaith canlyniadau â lefel gwariant pob awdurdod.

3. **Rydym ni o'r farn ar sail ein profiad nad yw maint y gwariant penodol ar bobl ifanc â phrofiad o ofal, yn gytbwys ar draws yr ystod o wasanaethau cyhoeddus.**

"Local Authorities are hamstrung by the year on year funding model that means that middle managers budgets often make placement decisions on in year budget considerations rather than based on the best interests of the child over the whole life time of the child" (Ymddiriedolaeth Ddiwygio Carchardai "Mewn Gofal, Allan o Drwbwl" 2016)

Fel darparwyr eiriolaeth, rydym yn ymdrin ag achosion lle nad yw tystiolaeth o gynlluniau gofal yn cynnwys safbwyntiau plant a phobl ifanc bob tro. Ni ystyrir eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau bob tro, ac ni ystyrir bod lleoliadau gofal maeth yn ddewis hirdymor ar gyfer plant a phobl ifanc, yn hytrach, maent yn ateb dros dro cyn mabwysiadau neu ddychwelyd adre, neu ganlyniad arall a allai gael ei wireddu.

4. **Nid ydym o'r farn bod cyrff cyhoeddus wedi rhoi digon o bwyslais ar ddull gwariant ataliol hirdymor yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, er mwyn cael y buddion gorau posibl o wariant cyhoeddus ar gyfer y grŵp hwn o blant.**

Rydym yn pryderu am yr ymrwymiad i ariannu polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor, er enghraifft, y gwelliannau ariannol presennol i alluogi plant sy'n derbyn gofal i gael gafael ar eu hawliadau eiriolaeth statudol. Rydym yn pryderu'n fawr y caiff y lefel bresennol hon o gyllid ei hamsugno yn y Grant Cynnal Refeniw yn 2019, heb unrhyw sancsiynau i sicrhau y caiff ei gynnal ar y lefel bresennol.